

RHOI SYLW I'R GAIR PROFFWYDOL

Nodyn i'r siaradwr:

Canolbwyntiwech ar pam y dylai fod gennym ddiddordeb mewn proffwydoliaeth Feiblaidd a sut y gall gryfhau ein ffydd. Esboniwech yn eglur broffwydoliaethau'r Beibl a ddewiswyd sy'n ymwneud â digwyddiadau'r dyfodol, gan ddangos sut y medrwn amlygu ein bod ni'n rhoi sylw iddynt

Y BEIBL YN LLYFR PROFFWYDOLIAETH (7 mun.)

Ychydig o ddiddordeb sydd gan y rhan fwyaf o Gristionogion honedig mewn proffwydoliaeth

Mae'r Beibl yn dangos fod gan yr angylion hyd yn oed ddiddordeb yn y dyfodol (1Pedr 1:12)

Mae'r Beibl yn unigryw ymhlith llyfrau cysegredig oherwydd ei elfennau proffwydol

Mae ynddo gofnod cyflawni ei broffwydoliaethau ei hun

Cyflawnwyd llawer o'i broffwydoliaethau, eraill yn disgwyl eu cyflawni

Beth ydi proffwydoliaeth? Hanes wedi ei ysgrifennu cyn iddo ddigwydd, hynny yw, darogan

Ond gellir cymhwyso'r gair "proffwydoliaeth" yn y Beibl i unrhyw orchymyn, athrawiaeth foesol, neges o darddiad dwyfol (Deut 18:18, 19; Esec 37:9, 10; Lc 7:16; In 4:19; Eiseia 1:1-23)

Trosglwyddwyd daroganau proffwydol y Beibl mewn gwahanol ffyrdd

Drwy air llafar Jehofah (Gen 3:15)

Drwy arwain meddwl a chof ymwybodol (In 14:26; 16:13; 2Pedr 1:21)

Drwy gyfrwng breuddwydion (Gen 41:15; Dan 4:5)

Drwy gyfrwng gweledigaethau (Dan 8:2)

Drwy gyfrwng angylion (Lc 1:19, 30, 31)

Ar adegau mae rhagor nag un cyflawniad i broffwydoliaethau

Cyflawnwyd Malachi 4:5 yn Ioan Fedyddiwr ond mae cyflawniad modern iddi o ystyried Malachi 4:6 (Mth 11:14)

Cyflawnwyd y proffwydoliaethau adferiad wedi 537 C.C.C., maent yn cael eu cyflawni yn y baradwys ysbrydol bresennol, ac fe gânt eu cyflawni yn fisegol yn y Deyrnas Feseianaidd (Salm 126; 2Cor 12:4; Dat 21:3, 4)

PAM DYLAI FOD GENNYM DDIDDORDEB BRWD YN NAROGANAU'R BEIBL (10 mun.)

Mae proffwydoliaethau yn ein helpu i weld ble'r ydym yn ôl amserlen Duw

Enghreifftiau (Mth 24:1-51; 2Tim 3:1-5)

Helpodd Daniel 9:24-27 yr Iddewon i wybod fod ymddangosiad y Meseia yn agos

Mae proffwydoliaethau a gyflawnwyd yn cryfhau ffydd yn y Beibl fel Gair ysbrydoledig Duw

Mae proffwydoliaethau a gyflawnwyd yn tystio i hollalluogrwydd Jehofah, ei hollwybodaeth; nid yn unig mae'n rhagweld ond hefyd mae'r dyfodol dan ei reolaeth (Eiseia 46:8-10)

Mae proffwydoliaethau a gyflawnwyd yn cryfhau ein ffydd yn y rhai sydd eto i'w cyflawni

Ysgrifennwyd y proffwydoliaethau i'n cysuro, a'n hannog ni (Rhuf 15:4)

CADARNHAU CENADWRI'R PROFFWYDI (10 mun.)

Trwy gyfrwng golygfa'r gweddnewidiad (gweledigaeth) (Mth 17:1-9)

Y tystion oedd y tri apostol agosaf at Iesu (Pedr, Iago, ac Ioan, fel y gwelir yn Luc 8:51; Marc 14:33)

Drwy ffenomena gweledol a chlywedol y weledigaeth hon cadarnhawyd ffydd yr apostolion (2Pedr 1:17-19)

Adnod 17: Llais Duw ei hun oedd y llais (un o dri achlysur pan glywyd llais Duw gan fodau dynol: Marc 1:11; Ioan 12:28)

Adnod 18: Digwyddodd fwy na thebyg ar lethrau Mynydd Hermon (*w*91 9/15 20)

Adnod 19: Cadarnhau pa genadwri'r proffwydi? Yr Ysgrhythurau Hebraeg yn llawn cyfeiriadau at y Meseia (Lc 24:44; Deut 18:15; Dan 7:13, 14)

Ystyr rhoi sylw ydi cymryd cenadwri'r proffwydi o ddifrif, rhoi ffydd ynddi, a chaniatáu iddi ddylanwadu ar ein bywydau

Pwy yw "seren y bore"? Yn ôl Datguddiad 22:16 Iesu Grist ydyw

Ni ellir dehongli proffwydoliaeth ddilys gan "neb ar ei ben ei hun" (2Pedr 1:20)

Hynny yw, nid oes proffwydoliaeth o ganlyniad i ddyn yn dehongli digwyddiadau

Hefyd, nid yw proffwydoliaeth na'i datgeliad o ddyn (*Ref. Bi. ftn.*)

Maent oll yn rhan o'r pethau ysbrydoledig buddiol; nid yn deillio o ewyllys dyn ond trwy ysbryd Duw yn gweithredu, fel y tystiolaetha Dafydd (2Sam 23:2), Paul (2Tim 3:16)

Maent yn rhan o'r geiriau sy'n dod o enau Duw i'n cadw'n fyw (Mth 4:4)

PROFFWYDOLIAETHAU SYDD ETO I'W CYFLAWNI Y MAE GOFYN INNI ROI SYLW IDDYNT (15 mun.)

Er bod astudio proffwydoliaethau sydd eisoes wedi'u cyflawni yn cryfhau ein ffydd, mae rhoi sylw i'r rheiny sy'n ymwneud â'r dyfodol yn hanfodol i'n hachubiaeth

Gwelir un broffwydoliaeth o'r fath yn 1 Thesaloniaid 5:3 (Darllen) (*dg* 21 par. 12)

Mae dynion yn ymdrechu i'r cyfeiriad hwn (Cyfeiriwch at unrhyw ymdrechion gwleidyddol cyfoes, cyfarfodydd arweinwyr grymoedd mwyaf y byd)

Gallwn hefyd ddisgwyl cyflawni buan ar Ddatguddiad 17:16 (Darllen ac egluro; gweler *re* 256-7)

Wedi difa Babilon Fawr, yna bydd elfennau gwleidyddol radical yn troi ar bobl Dduw (Darllen Eseciel 38:14-16a)

Bydd hyn yn achosi i Jehofah ymyrryd, ymladd ar ran ei bobl (Darllen Eseciel 38:18-20) (*w91* 8/15 27)

Bydd hyn yn arwydd cyflawni'r "dryllio" y cyfeiria Daniel 2:44, 45 ato (Darllen)

O fynydd awdurdod brenhinol bydysawdol Jehofah daeth y Deyrnas Feseianaidd, a fydd yn fuan yn difa cyfundrefn ddrwg, weledig Satan

Bydd hyn yn llwyr gyflawnhau awdurdod brenhinol Jehofah ac yn sancteiddio ei enw (Darllen Eseciel 38:23)

Yn nesaf, bwrir Satan a'i gythreuliaid i'r pydew (Darllen Datguddiad 20:1-3a)

Yr angel sydd yn gwneud y rhwymo yw Iesu Grist (*re* 287)

Dim ond wedyn y gall bendithion y Deyrnas lifo'n rhwydd

Yna gwelir gwireddu Datguddiad 21:3, 4 yn ei holl gyflawnder (Darllen)

Yn raddol daw'r holl ddaear yn baradwys

Adferir y ddynoliaeth i berffeithrwydd

Bydd geiriau Iesu yn Ioan 5:28, 29 yn cael eu cyflawni (Darllen)

Mae gwneud daioni neu ddrygioni yn cyfeirio at ymddygiad ar ôl cael atgyfodiad; mae'r ymadrodd "barn" yn cyfeirio at farn adfydus

Daw geiriau Paul yn 1 Corinthiaid 15:24-28 yn wir (Darllen)

Yn olaf, gan gyflawni Datguddiad 20:7, 8 bydd profi ar bawb (Darllen)

Difethir pob gwrthryfelwr; rhoddir hawl i fywyd tragwyddol i bawb fydd yn llwyddo yn y prawf

MAE RHOI SYLW I'R GAIR PROFFWYDOL YN CYNNWYS DWEUD WRTH ERAILL (3 mun.)

Mae byd dynoliaeth mewn tywyllwch o ran gwybod am fwriadau Duw (Eseia 60:2; Act 26:18)

Mae cyflawniad proffwydoliaeth yn dangos fod bendithion y Deyrnas yn agos; mae cyfrifoldeb arnom ni i wneud yr "Efengyl hon" yn hysbys (Mth 24:14)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)